

Gosod Amcanion Llesiant – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Blwyddyn archwilio: 2024–2025

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4720A2025

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Cefndir: Ein harchwiliadau o'r broses o osod amcanion llesiant	4
Cynnal ein harchwiliad yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	5
Sut a phryd y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gosod ei amcanion llesiant	5
Yr hyn a ganfuwyd gennym: cymhwysodd yr Awdurdod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant a gynlluniwyd i gyflawni manteision hirdymor, ond nad oes ganddo drefniadau i ddarparu adnoddau ar eu cyfer nad i'w cyflawni nhw	6
Argymhellion	10
Atodiadau	
Atodiad 1: cwestiynau allweddol a'r hyn yr ydym yn chwilio amdano	11

Cefndir: Ein harchwiliadau o'r broses o osod amcanion llesiant

- 1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn rhoi 'dyletswydd llesiant' ar 56 o gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyrff hynny osod a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi eu cynllunio i gynyddu gymaint â phosibl eu cyfraniad at gyflawni pob un o saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf¹. Hefyd, mae'n rhaid iddynt gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.
- 2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau er mwyn asesu i ba raddau y mae gyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant². Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o'r archwiliadau hyn, hyd at ddechrau 2025³.
- 3 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'. I gyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio, ac atal⁴.
- 4 Gwnaethom gynllunio fframwaith asesu i'n galluogi i asesu i ba raddau y mae gyrff cyhoeddus wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o wybodaeth am ein dull, gan gynnwys set o 'ddangosyddion cadarnhaol' sy'n egluro sut y gallai'r hyn sy'n dda edrych.
- 5 Wrth ddylunio ein dull, gwnaethom ystyried yr hyn y gallem ei ddisgwyl yn rhesymol gan gyrff cyhoeddus ar yr adeg hon. Erbyn hyn, dylai gyrff cyhoeddus fod yn gyfarwydd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffordd o weithio a cheisio eu cymhwyso mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn gwerthfawrogi bod gyrff cyhoeddus yn dal i ddatblygu eu profiad wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy pan maent yn gosod amcanion llesiant. Felly, mae'r archwiliadau'n cynnwys ystyried sut mae gyrff cyhoeddus yn cymhwyso eu dysg a sut y gallant wella yn y dyfodol.

¹ Y saith nod llesiant cenedlaethol yw: Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

² Adran 15 (1) (a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

³ Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau yn ystod y cyfnod a nodir yn y Ddeddf, sy'n dechrau flwyddyn cyn etholiad y Senedd ac sy'n dod i ben flwyddyn ac yn diwrnod cyn etholiad canlynol y Senedd.

⁴ Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cynnal ein harchwiliad yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

- 6 Nod yr archwiliad hwn oedd:
- esbonio sut y gwnaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yr Awdurdod) gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy gydol y broses o osod ei amcanion llesiant;
 - rhoi sicrwydd ynghylch y graddau y mae'r Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant; a
 - nodi cyfleoedd i'r Awdurdod ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth osod amcanion llesiant yn y dyfodol.
- 7 Aethom ati i ateb y cwestiwn cyffredinol 'i ba raddau y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd'. Gwnaethom hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:
- A oedd yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn tanategu'r broses y rhoddodd yr Awdurdod ar waith ar gyfer gosod ei amcanion llesiant?
 - A yw'r Awdurdod wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?
 - A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro cynnydd a gwella'r modd y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant?
- 8 Gwnaethom drafod amseriad yr archwiliad gyda'r Awdurdod, a gwnaethom addasu'r broses o'i gyflawni gan adlewyrchu ei amgylchiadau penodol. Gwnaethom gynnal y gwaith hwn rhwng mis Awst a mis Medi 2024.
- 9 Gwnaethom gasglu ein tystiolaeth yn y ffyrdd canlynol:
- adolygu dogfennau allweddol;
 - cynnal nifer bach o gyfweiliadau.

Sut a phryd y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gosod ei amcanion llesiant

- 10 Dechreuodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog y gwaith o osod amcanion llesiant newydd yn ystod 2020; yna cyhoeddodd ei amcanion newydd ym mis Ebrill 2023. Mae **Arddangosyn 1** yn nodi'r amcanion llesiant hynny.
- 11 Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion llesiant yn rhan o'i gynllun rheoli Dyfodol y Bannau⁵ sy'n cynnwys ei ddatganiad llesiant sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.

⁵ [Dyfodol-Y-Bannau.pdf](#)

Arddangosyn 1: Amcanion llesiant Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Hinsawdd—Cyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net ledled Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog erbyn 2035

Dŵr—Adnoddau dŵr ac amgylcheddau dŵr glân, diogel, cydnerth, digonol erbyn 2030

Natur—Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn natur-bositif erbyn 2030

Pobl—Byw, gweithio, ymweld yn ddiogel, yn deg ac yn gynaliadwy

Lle—Lleoedd hardd, ffyniannus a chynaliadwy. Fe'u dehlir oherwydd eu treftadaeth naturiol a diwylliannol, yn awr ac am byth

Yr hyn a ganfuwyd gennym: cymhwysodd yr Awdurdod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant a gynlluniwyd i gyflawni manteision hirdymor, ond nad oes ganddo drefniadau i ddarparu adnoddau ar eu cyfer nad i'w cyflawni nhw

Mae'n amlwg bod yr Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy ddefnyddio tystiolaeth helaeth wrth osod ei amcanion llesiant uchelgeisiol

- 12 Defnyddiodd yr Awdurdod amrywiaeth eang o wybodaeth wrth osod ei amcanion llesiant, megis adroddiad Cyflwr y Parc, ac Asesiadau Tirwedd yn sgil gweithio mewn partneriaeth â phrifysgol. Helpodd yr amrywiaeth o ddata a deallusrwydd a ystyriodd yr Awdurdod iddo sicrhau bod ganddo ddealltwriaeth dda o risgiau, heriau a chyfleoedd allweddol wrth osod ei amcanion.

- 13 Mae'r Awdurdod yn casglu ac yn cyflwyno ei ystyriaeth helaeth a'i ddefnydd o ddata yn 'Donyt y Parc'⁶. Mae ar gael ar ei wefan, ac mae'n cyfleu cyflwr presennol y Parc Cenedlaethol ac yn cynnwys sawl adran, gan gynnwys y cyd-destun ecolegol, amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn dangos yr amrywiaeth o ddata a ystyriwyd yn ogystal â sut mae'r Parc wedi defnyddio'r data i siapio a datblygu ei amcanion llesiant.
- 14 Fel y dangosir yn Donyt y Parc, cyfrannodd y data helaeth a ddefnyddiodd yr Awdurdod at yr Awdurdod yn dylunio ei amcanion llesiant sy'n canolbwyntio ar gyflawni ymyriadau i atal problemau rhag gwaethygu. Er enghraifft, cyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net ledled y Parc Cenedlaethol erbyn 2035. Mae ei bwyslais ar weithgareddau ataliol neu ymyrraeth gynnar yn dangos dealltwriaeth yr Awdurdod o'r heriau tymor byr, canolig a hirdymor a'i ymrwymiad i fynd i'r afael ag achos sylfaenol y materion hyn.
- 15 Cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad cynhwysfawr ac ymarferion ymgysylltu hefyd wrth benderfynu ar ei amcanion llesiant. Dechreuodd yr ymgynghoriad yn ystod haf 2020 a daeth i ben yn hydref 2022. Sefydlodd yr Awdurdod Banel Cyfeirio Rhanddeiliaid a'r Cynulliad Dinasyddion a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd. Bu hefyd yn ymgysylltu â staff, gwirfoddolwyr, y cyhoedd a phartneriaid. Ar y dechrau, ymgynghorodd yr Awdurdod ar 20 thema, ond lleihaodd y rhain yn bum cenhadaeth (amcanion llesiant) yn ei gynllun rheoli terfynol. Mae hyn yn dangos bod yr Awdurdod yn ystyried canlyniadau ei ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu. Rhoddodd creadigaeth y Panel Cyfeirio Rhanddeiliaid gyfle hefyd i bartneriaid yr Awdurdod siapio a dylanwadu ar yr amcanion llesiant.
- 16 Er bod yr Awdurdod wedi llunio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gefnogi ei gynllun rheoli, ni cholodd yr Awdurdod ddata demograffig cynhwysfawr yn ystod ei weithgaredd ymgynghori ac ymgysylltu. Felly, nid yw'r Awdurdod yn gwybod a gasglodd ei weithgaredd ymgynghori safbwyntiau sy'n adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen iddo ddefnyddio dulliau amgen yn y dyfodol i ymgysylltu'n effeithiol ag ystod amrywiol o bobl. Dangosodd yr Awdurdod ei ymrwymiad i wella ei ymgysylltiad drwy ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Wrth gyflawni'r cynllun gweithredu, mae'n bosibl y gellid helpu'r Awdurdod i gynnwys grwpiau gwahanol yn y boblogaeth. Gall ymgysylltu ag amrywiaeth lawn y boblogaeth helpu'r Awdurdod i sicrhau ei fod yn datblygu camau gweithredu sy'n diwallu anghenion ei boblogaeth a defnyddwyr y Parc Cenedlaethol.
- 17 Wrth osod ei amcanion llesiant presennol, mae'r Awdurdod wedi cymhwyso gwersi a ddysgodd wrth osod ei amcanion blaenorol. Y wers allweddol a ddysgwyd oedd sicrhau yr ymgysylltir ac yr ymgynghorir â phartïon, cymunedau a phartneriaid sydd â buddiannau. Mae tystiolaeth glir bod yr Awdurdod wedi gweithredu'r ddysg hon yn y cynllun rheoli hwn. Mae'r Awdurdod hefyd wedi dysgu gwersi o osod ei

⁶ [Evidence and Research | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog \(bannau.cymru\)](https://www.bannau.cymru)

amcanion llesiant presennol ac mae'n cymhwyso'r gwersi hyn wrth ddatblygu strategaethau eraill, megis ei Strategaeth Bwyd.

- 18 Mae aliniad clir rhwng amcanion llesiant yr Awdurdod a'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae'r Awdurdod yn nodi'n glir sut yr ystyriodd y nodau llesiant cenedlaethol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ei amcanion llesiant. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod yr Awdurdod yn nodi cyfleoedd i gyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.
- 19 Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddeall blaenoriaethau cyrff cyhoeddus eraill. Rydym yn cydnabod bod daearyddiaeth y Parc Cenedlaethol yn gymhleth ac mae gan yr Awdurdod amrywiaeth eang o amcanion llesiant cyrff cyhoeddus i'w hystyried. Er enghraifft, o fewn ffiniau y Parc Cenedlaethol, mae naw cyngor, tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a thri Chyd-bwyllgor Corfforaethol. Fodd bynnag, gall deall amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill leihau'r risg o ddyblygu camau a helpu i nodi cyfleoedd i sicrhau manteision lluosog.

Mae gan yr Awdurdod weledigaeth uchelgeisiol a hirdymor ar gyfer y Parc Cenedlaethol, ond nid yw wedi nodi sut y bydd yn cael gafael ar yr adnoddau sydd eu hangen i'w chyflawni.

- 20 Mae gan yr Awdurdod uchelgeisiau hirdymor ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Mae cynllun rheoli pum mlynedd yr Awdurdod (2023–28) yn cynnwys gweledigaeth hirdymor ar gyfer y Parc Cenedlaethol, hyd at 2048 (25 mlynedd). Mae data a naratif yn y cynllun yn disgrifio cyflwr presennol y Parc ac mae hefyd yn cynnwys 'cerdyn post o 2047'. Mae'r cerdyn post hwn yn dangos sut mae byw yn y Parc Cenedlaethol yn edrych ac yn swnio ymhen 25 mlynedd. Datblygodd yr Awdurdod gynllun rheoli Parc Cenedlaethol uchelgeisiol, arloesol a gweledol, gan gyfathrebu ei uchelgeisiau hirdymor yn glir. Dylai'r eglurder hwn helpu partion, cymunedau a phartneriaid sydd â buddiannau i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin.
- 21 Fodd bynnag, cymeradwyodd yr Awdurdod ei gynllun rheoli heb ddeall ei oblygiadau o ran adnoddau. O ganlyniad, nid yw'r Awdurdod wedi nodi adnoddau i gyflawni'r amcanion llesiant yn y tymor byr.
- 22 Bydd y camau sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth hirdymor yn cymryd amser i'w cyflawni. Ar adeg y gwaith maes, nid oedd gan yr Awdurdod gynlluniau gweithredu (neu gyfwerth) yn manylu ar sut y bydd yn cyflawni ei amcanion llesiant. Byddai cynlluniau gweithredu sy'n cefnogi cyflawniad yr amcanion llesiant yn rhoi eglurder angenrheidiol o ran pwy sy'n gyfrifol am gyflawni ac erbyn pryd. Mae absenoldeb cynllun cyflawni y darperir adnoddau ar ei gyfer yn glir yn cynyddu'r risg na fydd amcanion llesiant yr Awdurdod yn cael eu cyflawni.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth, ond nid yw cyfraniad partneriaid yr Awdurdod o ran cyflawni ei amcanion llesiant yn cael ei gipio yn ffurfiol

- 23 Mae cyflawni amcanion llesiant yr Awdurdod yn dibynnu ar randdeiliaid i fod wedi ymrwymo i'w cyflawni. Mae'r cynllun rheoli yn dangos ymrwymiad yr Awdurdod i gydweithredu â phrosiectau unigol a amlygir er mwyn cyfleu ehangder ac amrywiaeth y gwaith partneriaeth.
- 24 Mae'r cynllun rheoli hefyd yn cynnwys adran ar bartneriaethau arwyddocaol yr Awdurdod. Mae naratif clir o ddiben ac amcanion pob un yn ogystal â chrynodeb o weithredoedd pob bwrdd/partneriaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oes gan yr Awdurdod ddulliau ffurfiol o ddeall a chipio cynnydd a gwybodaeth am berfformiad gan bartneriaid allweddol. Mae hyn yn enwedig o bwysig oherwydd graddau y gweithgaredd cydweithredol a'r gwaith partneriaeth sydd eu hangen i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae'r diffyg trefniadau goruchwyllo yn peri risg na fydd yr Awdurdod yn gallu monitro'r cynnydd yn gywir wrth gyflawni ei amcanion.

Mae gan yr Awdurdod fframwaith monitro perfformiad clir ar gyfer ei amcanion llesiant

- 25 Mae gan yr Awdurdod fframwaith sy'n amlinellu ei drefniadau monitro hirdymor ar gyfer ei amcanion llesiant. Mae gan yr Awdurdod amrywiaeth o fesurau perfformiad i'w alluogi i fonitro'r cynnydd. Mae ei fesurau'n cynnwys diweddariadau ar ddata a ddefnyddir i ddatblygu'r cynllun, megis data ecolegol ac economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â data am brofiadau a hygyrchedd ymwelwyr. Mae gwybodaeth gynhwysfawr ar gael ar gyfer pob mesur perfformiad. Dylai hyn helpu'r Awdurdod i fonitro a rheoli cyflawniad ei amcanion llesiant. Oherwydd bod llawer o'r mesurau y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod yn gyffredinol, mae'n pwysleisio pwysigrwydd cydweithredu â phartneriaid ar gyflawniad a deallusrwydd eu cyfraniad.
- 26 Dilynodd yr Awdurdod dull cydweithredol a safbwynt hirdymor wrth nodi mesurau perfformiad. Nodwyd y rhain drwy sesiynau gweithdy gyda swyddogion yr Awdurdod a'r Panel Cyfeirio Rhanddeiliaid. Dewiswyd mesurau hefyd pan ddylai data fod ar gael i olrhain newid dros amser hir. Dylai'r dull hwn sicrhau ymrwymiad a deallusrwydd partneriaid allweddol o'r graddau y gwneir cynnydd tuag at amcanion llesiant yr Awdurdod. Mae hefyd yn dangos bod yr Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd monitro cynnydd dros y tymor byr a'r tymor hwy.

Argymhellion

Cynllun gweithredu

A1 Mae diffyg cynllun cyflawni y darperir adnoddau ar ei gyfer yn cynyddu'r risg na fydd amcanion llesiant yr Awdurdod yn cael eu cyflawni. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai'r Awdurdod benderfynu ar frys sut y darperir adnoddau ar gyfer ei amcanion llesiant a sut byddant yn cael eu cyflawni drwy:

- 1.1 Datblygu cynlluniau gweithredu (neu gyfwerth) er mwyn cyflawni ei amcanion llesiant;
- 1.2 Egluro'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei amcanion llesiant; ac
- 1.3 Egluro'r adnoddau y mae rhanddeiliaid yn bwriadu eu cyfrannu i'w helpu i gyflawni ei amcanion llesiant.

Monitro

A1 Mae cyflawniad amcanion llesiant yr Awdurdod yn dibynnu ar gyfraniadau partneriaid. Dylai'r Awdurdod gryfhau ei drefniadau i ddeall sut mae ei bartneriaid yn cyfrannu at gyflawniad ei amcanion llesiant.

Atodiad 1

Cwestiynau allweddol a'r hyn yr ydym yn chwilio amdano

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai isgwestiynau i'n harwain wrth inni gasglu tystiolaeth. Maent yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi eu defnyddio yn ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy yn flaenorol, a ddatblygwyd trwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus ac a lywiwyd gan gyngor a chanllawiau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Nid rhestr wirio yw'r rhestr hon, ond yn hytrach set o nodweddion darluniadol sy'n disgrifio sut y gallai'r hyn sy'n dda edrych.

I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?

Cynllunio: A oedd yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn tanategu'r broses y rhoddodd y corff ar waith ar gyfer gosod ei amcanion llesiant?

<p>A yw'r corff wedi defnyddio data a deallusrwydd arall i ddeall anghenion, risgiau a chyfleoedd a sut y gallent newid dros amser?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y corff asesiad clir a chytbwys o'r cynnydd o'i gymharu ag amcanion llesiant blaenorol a ddefnyddiwyd i lywio dealltwriaeth y corff o'r angen 'fel y bo'/tymor byr. • Mae'r corff wedi gosod amcanion llesiant ar sail dealltwriaeth dda o'r angen, y risg a'r cyfleoedd presennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau y dyfodol. Mae'n debygol y defnyddir hyn o amrywiaeth o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis: <ul style="list-style-type: none"> – Aseidiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – Aseidiadau poblogaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol – Canlyniadau ymarferion ymgysylltu/ymgyngori lleol – Monitro gwasanaethau a chwynion – Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol – Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru (SoNaRR) ar gyfer Aseidiadau Cymru ac Ardaloedd • Mae'r corff wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel y gall fynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau rhwng cenedlaethau drwy ei amcanion llesiant.
<p>A yw'r corff wedi cynnwys eraill wrth ddatblygu ei amcanion llesiant?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r corff yn defnyddio canlyniadau cyfranogiad i'w helpu i ddewis ei amcanion llesiant. Mae'r ymglymiad hwnnw—boed yn gynradd, eilaidd neu'n gyfuniad—yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth. • Mae cyfranogiad yn adlewyrchu arferion da a chynghor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
<p>A yw'r corff wedi ystyried sut y gall yr amcanion wella llesiant a chael effaith eang?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r amcanion llesiant wedi eu cynllunio i wella llesiant yn yr ystyr ehangaf ac i wneud cyfraniad ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol. • Mae'r amcanion llesiant wedi eu cynllunio i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith. • Mae dealltwriaeth ddatblygedig o sut mae'r amcanion llesiant yn effeithio ar, neu'n ymwneud â'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni a chyfleoedd i weithio gyda'i gilydd.

<p>A yw'r corff wedi cynllunio'r amcanion i gyflawni manteision tymor hwy, wedi eu cydbwyso â diwallu anghenion tymor byr?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r corff wedi gosod amcanion sy'n ddigon uchelgeisiol ac sydd wedi eu cynllunio i sbarduno gweithgarwch ar draws y sefydliad. • Mae'r amcanion wedi eu cynllunio i ddiwallu anghenion tymor byr a hirdymor. Pan osodir amcanion dros amserlen fer i ganolig, fe'u gosodir yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hwy.
<p>Adnoddau a chyflawni: A yw'r corff wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?</p>	
<p>A yw'r corff wedi ystyried sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer yr amcanion llesiant?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dyrannwyd adnoddau i sicrhau y gellir cyflawni'r amcanion dros y tymor byr a'r tymor canolig, ond mae'r corff hefyd wedi ystyried adnoddau tymor hwy, risgiau a/neu sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion tymor hwy. • Mae'r corff wedi dyrannu adnoddau i gyflawni manteision ataliol, pan ddisgrifir y rhain yn ei amcanion llesiant.
<p>A yw'r corff wedi ystyried sut y gall weithio gydag eraill i gyflawni eu hamcanion?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r corff yn defnyddio ei wybodaeth am amcanion/gweithgareddau partneriaid, ei berthnasoedd a'i drefniadau cydweithredol i sicrhau y gall gyflawni uchelgeisiau trawsbynciol.

Monitro ac adolygu: A yw'r corff wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro cynnydd a gwella'r modd y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant?

A yw'r corff wedi datblygu mesurau a threfniadau monitro priodol?

- Mae mesurau perfformiad wedi eu cynllunio i adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ee drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n torri ar draws ffiniau adrannol/sefydliadol ac sy'n cyflawni manteision lluosog (gan gynnwys ataliol) dros y tymor hwy.
- Mae 'edau aur' a fydd yn caniatáu i'r corff adrodd yn glir ac yn dryloyw ar y cynnydd o ran cyflawni'r amcanion.

A yw'r corff yn ceisio dysgu o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a gwella sut y mae wedi ei chymhwyso i osod ei amcanion llesiant?

- Mae'r corff yn dangos hunanymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol.
- Mae'r corff wedi dysgu o osod amcanion llesiant blaenorol a thrwy gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fwy cyffredinol ac mae wedi gwella'r broses o osod ei amcanion llesiant newydd.
- Mae gan y corff gynlluniau neu mae'n bwriadu ystyried sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y cylch gosod amcanion llesiant hwn.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.